

**Impact Cashless Catering Systems**  
Headley Technology Park  
Middle Lane, Wythall  
Birmingham, B38 0DS

Tel: 01564 829999  
Fax: 01564 826999  
Email: [service@cunninghams.co.uk](mailto:service@cunninghams.co.uk)



## Impact Biometrics

### Beth yw biometreg?

Mae posib defnyddio dilysu biometreg i adnabod bod dynol drwy ddefnyddio nodweddion corfforol addas. Gellir adnabod defnyddiwr penodol drwy fesur eu nodweddion corfforol a chymharu'r data â data biometreg sydd wedi ei storio ar y system. Mae yna nifer o nodweddion biometreg y gellir eu defnyddio i ddilysu unigolion, maent yn cynnwys ôl bys, llofnod, iris, retina, DNA neu unrhyw nodwedd unigryw arall. Unwaith rydych wedi penderfynu pa nodwedd i'w ddefnyddio, y cam nesaf o'r broses biometreg yw dilysiad. Cofnodir y nodwedd biometreg ar y gronfa ddata. Ar ôl i'r data gael ei storio mae darlleniad newydd o'r nodwedd biometreg yn cael ei gymryd. Dim ond os yw'r gymhariaeth yn bositif y rhoddir mynediad i'r system dan sylw.



Ôl bys

### Hanes biometreg

Dim ond yr heddlu a arferai ddefnyddio technoleg ôl bysedd, ond erbyn heddiw fe'i defnyddir gan sefydliadau ar hyd y wlad. Mae'r dechnoleg hon yn mynd yn fwy poblogaidd ac yn cael ei ddefnyddio gan fanciau, archfarchnadoedd a cholegau ac ysgolion hyd yn oed. Nid yw biometreg yn beth newydd o bell ffordd, mae ei wreiddiau wedi ei olrhain i gyfnod yr hen Eifftiaid. Dechreuwyd defnyddio ôl bysedd fel dyfais diogelwch gan swyddogion Tsieineaidd i selio dogfennau yn yr ail ganrif CC. Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r dechnoleg wedi mynd yn boblogaidd iawn yn y byd masnachol.



# Impact Biometrics

## Ysgol Dyffryn Conwy



### Biometreg a diogelwch

Nid oes posib i unrhyw ffynonellau eraill defnyddio delweddau olion bysedd at ddibenion dilysu. Mae'r system yn defnyddio delwedd o'r ôl bys i greu algorithm mathemategol ac yna'n cael gwared â'r ddelwedd - y rhifau yn unig sy'n weddill ac nid oes posib ail-ddehongli'r rhain i greu delwedd ôl bys. Nid oes rhaid rhoi ôl bys os nad ydych yn dymuno, mae posib defnyddio rhif pin hefyd.

### Cwestiynau a ofynnir yn aml

#### Pam ydych angen cymryd ôl bys fy mhlentyn?

Drwy gymryd delwedd o ôl bys eich plentyn gallwn greu llofnod digidol. Defnyddir y ddelwedd unigryw hon yn lle'r hen gardiau sweip.

#### A oes posib i asiantaeth arall ddefnyddio'r olion bysedd?

Nag oes, mae'r meddalwedd a ddefnyddiwn yn troi'r ddelwedd o'r ôl bys yn algorithm mathemategol. Ar ôl creu'r rhifau hyn byddwn yn cael gwared â'r olion bysedd. Nid oes posib defnyddio'r wybodaeth sydd yn cael ei storio i ail-greu delwedd o ôl bys y plentyn.

#### Beth fydd yn digwydd ar ôl i'm mhlentyn adael yr ysgol?

Bydd yr holl ddata'n cael ei ddileu.

#### Sut mae'r dechnoleg yn gweithio?

Pan mae'r plentyn yn gosod ei fys / ei bys ar y sganiwr mae'r meddalwedd yn paru'r ôl bys gyda llofnod digidol unigol sydd wedi'i storio yn y gronfa ddata.